**Tŷ Penallta,**
Parc Tredomen,
Ystrad Mynach,
Hengoed CF82 7PG

**Penallta House,**
Tredomen Park,
Ystrad Mynach,
Hengoed CF82 7PG

CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

**Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol**
**Corporate Director - Education and Corporate Services**

www.caerffili.gov.uk | www.caerphilly.gov.uk

12.02.21

Dear Parent/Carer

As you will know, Welsh Government has announced that all pupils in Foundation Phase (3-7years old) will be able to return to school by Friday, 26th February, 2021. I am sure your schools have already been in touch with details of specific dates and times. Arrangements will vary between schools, due to the requirements of individual site risk assessments. This transition week will also mean a possible reduction in the remote learning offer, as staff focus on supporting children to return in the classroom.

Headteachers and school staff will be working very hard to adapt practices and procedures on school site, to further minimise contact between 'bubbles' within school. It is now more important than ever that we continue to follow the Public Health Wales guidance, e.g. frequent washing of hands. You will also see school staff wearing face coverings now, as advised.

You can all help too by;

- wearing a face covering at the school gate and on the school site;
- socially distancing;
- only bringing and collecting children to and from school from your own household (unless you are a childminder or part of a support bubble);
- keeping your children at home when they are unwell and taking them for a Covid test if they develop symptoms.

You may also be aware that staff on school sites have been offered the opportunity to participate in twice-weekly testing. This will sometimes mean that classes will be required to self-isolate whilst the test result is confirmed by a formal test.

**Catering**

*Week beginning 22nd February, 2021.*

All pupils in school will be required to bring a packed lunch and FSM deliveries will continue.

*From 1st March, 2021.*

Catering services will resume for all pupils in schools offering foundation phase education. FSM deliveries for all other pupils will continue.

Cont'd ….

Milk and fruit provision will begin as soon as possible for pupils in the foundation phase.

As this return begins, we are all acutely aware of the need to ensure that we do all we can to continue to make the school environment as safe as possible. We all have our part to play.

I am sure that we will work together to achieve a successful return to school. Headteachers and the school community have been working incredibly hard to provide both learning on site for identified groups, and remotely for those at home. They are now also very busy preparing for the wider return.

Finally, thank you for the way in which you have supported your children to engage with their learning and for the many positive comments you have made.

As always, if you have any concerns in regard to your children's learning, please contact the school in the first instance.

Yours sincerely

***Keri Cole***

***Chief Education Officer, Caerphilly County Borough Council***

**Tŷ Penallta,**
Parc Tredomen,
Ystrad Mynach,
Hengoed CF82 7PG

**Penallta House,**
Tredomen Park,
Ystrad Mynach,
Hengoed CF82 7PG

**Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol**
**Corporate Director - Education and Corporate Services**

www.caerffili.gov.uk | www.caerphilly.gov.uk

12.02.21

Annwyl Riant/Ofalydd

Fel y byddwch chi'n gwybod, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd modd i bob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen (3 i 7 oed) ddychwelyd i'r ysgol erbyn dydd Gwener 26 Chwefror 2021. Rwy'n siŵr bod eich ysgolion eisoes wedi cysylltu â chi gyda' manylion am ddyddiadau ac oriau penodol. Bydd trefniadau yn amrywio o ysgol i ysgol oherwydd gofynion asesiadau risg safleoedd unigol. Bydd yr wythnos bontio hon hefyd yn golygu gostyngiad posibl o ran yr arlwy dysgu o bell, wrth i'r staff ganolbwyntio ar helpu plant i ddychwelyd i'r ystafell ddosbarth.

Bydd Penaethiaid a staff ysgol yn gweithio'n galed iawn i addasu arferion a gweithdrefnau ar safle'r ysgol i leihau cyswllt ymhellach rhwng ‘swigod’ yn yr ysgol. Mae'n bwysicach nag erioed ein bod ni'n parhau i ddilyn canllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru, e.e. golchi'ch dwylo yn aml. Byddwch chi hefyd yn gweld staff ysgol yn gwisgo gorchuddion wyneb, fel sy'n cael ei gynghori.

Gallwch chi i gyd helpu hefyd drwy;

- gwisgo gorchudd wyneb wrth giât yr ysgol ac ar safle'r ysgol;
- cadw pellter cymdeithasol;
- gollwng a chasglu plant sy'n rhan o'ch aelwyd eich hun yn unig (heblaw eich bod chi'n warchodwr plant neu'n rhan o swigen gefnogaeth);
- cadw'ch plant gartref pan fyddan nhw'n sâl a mynd â nhw am brawf COVID-19 os ydyn nhw'n datblygu symptomau.

Efallai eich bod hefyd yn ymwybodol bod staff ar safleoedd ysgolion wedi cael cyfle i gymryd rhan mewn profion ddwywaith yr wythnos. Weithiau bydd hyn yn golygu y bydd yn ofynnol i ddosbarthiadau hunan-ynysu tra bod canlyniad ffurfiol y prawf yn cael ei gadarnhau gan brawf ffurfiol.

**Arlwyo**

*Wythnos yn cychwyn 22 Chwefror 2021.*

Bydd angen i bob disgybl sydd yn yr ysgol ddod â phecyn bwyd a bydd prydau ysgol am ddim yn parhau i gael eu dosbarthu.

*O 1 Mawrth 2021.*

Bydd gwasanaethau arlwyo yn ailddechrau ar gyfer pob disgybl mewn ysgolion sy'n cynnig addysg cyfnod sylfaen. Bydd prydau ysgol am ddim yn parhau i gael eu dosbarthu ar gyfer pob disgybl arall.

Bydd darparu llaeth a ffrwyth yn ailddechrau cyn gynted â phosibl i ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen.

Wrth ddechrau dychwelyd, rydyn ni'n ymwybodol iawn o'r angen i sicrhau ein bod ni'n gwneud popeth y gallwn ni i barhau i sicrhau bod amgylchedd yr ysgol mor ddiogel â phosibl. Mae gan bawb ran i'w chwarae.

Rwy'n siŵr y byddwn ni'n gweithio gyda'n gilydd i sicrhau dychweliad llwyddiannus i'r ysgol. Mae Penaethiaid a chymuned yr ysgol wedi bod yn gweithio'n galed iawn i ddarparu dysgu ar y safle ar gyfer grwpiau a nodwyd, a dysgu o bell i'r rhai sydd gartref. Maen nhw bellach yn brysur iawn yn paratoi ar gyfer dychwelyd ehangach.

Yn olaf, diolch am y ffordd rydych chi wedi cefnogi eich plant i fynd ati a dysgu a'r sawl sylw cadarnhaol rydych chi wedi'u gwneud.

Fel erioed, os oes gennych chi unrhyw bryderon ynghylch addysg eich plant, cysylltwch â'r ysgol yn y lle cyntaf.

Yn gywir

***Keri Cole***

***Prif Swyddog Addysg, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili***